Cofnodion Pwyllgor Cynllunio a Materion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar nos Fercher yr 8fed o Fawrth 2017 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 6.30yh.

Presennol: Y Maer y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Julia Jones (Cadeirydd), y Cyng. Eifion Davies, y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Richard Wallace, y Cyng. Rob Jones. y Cyng. Owen James, y Cyng. Rebecca Butcher, y Cyng. Gordon Kilby. Roger Phillips (Clerc Tref)
Desmond Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Y Cyng. Geraint Price, y Cyng. Carol Watts

Cof 303 / Maw /17 Datganiadau o Fuddiant. Dim.

Cof 304 / Maw /17 Ceisiadau Cynllunio i'w Penderfynu

E/35145 Gosod ffenest ffrynt newydd yn lle'r hen un sy'n pydru a gollwng ar y llawr cyntaf, gyda Ffenestri UPVC yn y Neuadd Ddinesig, Heol Cilgant.
Sylw: Tra'n cydnabod bod yr adeilad mewn ardal gadwraeth, nid oes gwrthwynebiad gan y Cyngor i'r dewis o ffenestri newydd.

E/35144 Gosod unedau ffatri rheweiddio newydd, bolardiau newydd, drws mynediad newydd, bariau armo a'r estyniad i'r canopi sy'n bodoli dros yr ardal derbyn nwyddau yn y cefn. Adleoli'r bae trolïau dan do presennol yn Co-operative Services Ltd, Stryd Rhosmaen.
Sylw: Dim gwrthwynebiad.

Cof 305 / Maw / 17 Doedd dim Ceisiadau Cynllunio i'w Penderfynu

Cof 306 / Maw / 17 Doedd dim Materion eraill yn ymwneud â Chynllunio

Cof 307 / Maw / 17 Gohebiaeth

Steve Kelshaw, ynglŷn â'r diweddaraf ar y tri theulu newydd o Syria sy'n symud i Sir Gaerfyrddin ym mis Mawrth ac Ebrill. Nodwyd.

Cof 308 / Maw / 17 Doedd dim Materion yn ymwneud â Thrafnidiaeth a Phriffyrdd

Cof 309 / Maw / 17 Adroddiad y Swyddog Technegol

Roedd y Swyddog Technegol wedi dosbarthu ei adroddiad cyn y cyfarfod. Dywedodd y Swyddog Technegol bod problemau'n parhau gyda phlant yn eu harddegau yn yfed alcohol yn yr orsaf drenau gyda'r nos. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod y Cyngor yn gwahodd Prif Uwcharolygydd Heddlu newydd yr ardal, Gary Mills, i gwrdd â'r Cyngor. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Richard Wallace. Roedd pawb o blaid.

Cof 310/ Maw / 17 Doedd dim eitemau arall o fusnes roedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn penderfynu eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag Adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.45yh.